



Y Sioe

ADDYSG

Genedlaethol

Yn ymgorffori'r Sioe AAA/ADY

Hydref 3ydd 2025

UTILITA ARENA CAERDYDD

Ewch i'n safwe!



Llyfryn Sioe

50% I FFWRDD

Archebion grŵp o 10+
nes Mehefin 27ain 2025



Gweithio Gyda:





09:00 - 09:50

Gwneud y mwyaf o'r we fel athro

Yn y sesiwn bydd Mr P yn rhannu a dangos llu o adnoddau am ddim sydd ar gael i athrawon fel defnydd i wella dysgu yn y dosbarth.



Cyflwynir gan:

Mr P (Lee Parkinson)

Athro Ysgol Cynradd ac Ymgynghorydd Addysg

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

Pwysigrwydd chwarae a chael hwyl ar gyfer lles plant

Mae cael amser chwarae hwyliog a phositif yn gwneud byd o wahaniaeth i blant. Ni allwn beidio â sylweddoli pwysigrwydd y lles sy'n deillio o chwarae a chwerrhin. Mi fydd Jenny yn trafod sut mae cyd-weithredu, cynhwysiad, cymuned a pherthyn yn cael ei feithrin drwy chwarae. Gall plant ddysgu sut i chwarae gemau traddodiadol a rhai newydd i gefnogi gwell dealltwriaeth o ddysgu, cyfeillgarwch a gwaith tîm. Bydd Jenny'n trafod sut y gall pawb feithrin eu diddordebau unigol mewn buarth chwarae prysur ac mewn parthau arbennig. Bydd hi hefyd yn pwysleisio sut y gall chwaraegarwch ddod â mwy o hwyl i'r dosbarth.



Cyflwynir gan:

Jenny Mosley

Cyfarwyddwr a Sylfaenydd Quality Circle Time ac Awdures

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

SEMINAR
ADY

Dim ond chwiwiau: Dydyn nhw ddim angen diagnosis

Mewn ymateb i'r islif o ddrwgdeimlad sydd o gwmpas y cynnydd mewn diagnosis o gyflyrrau niwroamrywiaeth, drwy edrych ar beth sy'n achosi hyn, a beth ydy canlyniadau'r diagnosis.

(Yn ei hanfod, fel yr ydym yn dysgu mwy am beth ydy niwroamrywiaeth rydym yn sylwi ar fwy o bobl, ac mae diagnosis yn amlwg yn amddiffyn iechyd meddwl a chorfforol. Byddaf hefyd yn ateb beth ydy llyffetheiriau'r GIG a beirniadaeth ar systemau eraill gyda beth yr ydwyf yn gredu fydd arferion y dyfodol.)

Bydd hyn yn cynnwys mewnwelediad i wreiddiau niwroamrywiaeth a mewnwelediad ar ddulliau i helpu myfyrwyr niwroamrywiaeth.



Cyflwynir gan:

Dr Jo Grace

Arbenigwr Ymgysylltu Synhwyraidd ac Cynhwysiant

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **ADY a Pawb**

09:00 - 09:50

SEMINAR
ADY

Strategaethau ar gyfer arweinyddiaeth effeithiol SEND / ALN

Bydd hwn yn sesiwn sy'n rhoi offer a strategaethau i chi i fod yn arweinydd effeithiol ar gyfer ADY. Byddwn yn edrych ar y heriau a'r disgwyliadau o'r rôl hon, a thechnegau syml i oresgyn y rhwystrau.



Cyflwynir gan:

Karen Ferguson

Hyfforddwr NSM Training & Consultancy

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **ADY a Pawb**

09:00 - 09:50

SEMINAR
ADY

Dysgu ac addysgu mewn byd niwroamrywiol

Mae Niwroamrywiaeth yn derm cynhwysol sy'n cydnabod y ffaith bod gan bobl ag anawsterau dysgu brofiad unigryw o'r byd sy'n gallu dod â llawer o fanteision. Efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd mewn rhai meysydd ond yn rhagori mewn meysydd eraill. Dylid dathlu amrywiaeth meddwl dynol!

Yn stod y sesiwn hon, bydd Nina Jackson, addysgwyr niwroamrywiol ei hun, yn eich arwain, yn rhannu strategaethau, sgiliau a syniadau i gefnogi dysgu ac addysgu mewn byd niwroamrywiol.



Cyflwynir gan:

Nina Jackson

Ymgynghorydd Addysg ac Awdur

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **ADY a Pawb**

09:00 - 09:50

Deall lles meddyliol

1. Cyflwyniad i les meddyliol
2. Cerdyn sgorio Tîm y Lles Meddyliol - Asesu eich lles meddyliol cyfredol
3. Gweddnewid eich Rhwydwaith- Strategaethau ar gyfer adeiladu rhwydwaith gefnogol gryf.

Beth fydd yn cael ei egluro:

Bydd y cyfranogion yn gadael hefo dealltwriaeth newydd am eu rhwydwaith gefnogi a chymau y gellid eu gweithredu i wella eu lles meddyliol drwy gysylltiadau ystyrlon.



Cyflwynir gan:

Mike Pagan

Breaking Frontiers Ltd - Rheolwr Gyfarwyddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**



09:00 - 09:50

SEMINAR
ADY

Adnabod AAA / ADY a'i effaith ar gynnydd, adnoddau a llesiant

Bydd y sesiwn hon yn amlygu pwysigrwydd adnabod ac arferion AAA / ADY a'u heffaith ar adnoddau, cynnydd a llesiant cymuned yr ysgol.

Mae AAA / ADY yn bwnc eang gan fod y darlun o gynhwysiant wedi esblygu, ac mae llawer o arweinydd yr ysgol yn cael trafferth gyda chwestiynau ynghylch adnoddau, cynnydd disgyblion a llesiant staff.

Yn y seminar hwn, byddaf yn amlygu pwysigrwydd adnabod sy'n arwain at gefnogaeth fanwl gywir a thargededig er mwyn cefnogi'r ffactorau uchod.

Byddaf yn trafod yr elfennau o AAA / ADY sy'n cael eu hesgeuluso fwyaf a sut maent yn cyfrannu fwyaf at gynnydd a datblygiad disgyblion.



Cyflwynir gan:

Emma Noel Pinnock

Prif Swyddog Gweithredol Grŵp Addysg Hanfodol

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **ADY a Pawb**

09:00 - 09:50

Cyflwyno eich syniadau, newyddion a'ch barn gyda hyder

Ydych chi'n osgoi rhoi cyflwyniadau?

Ydych chi'n ddi-hyder wrth rannu barn neu hyd yn oed rannu newyddion mewn grwpiau mawr. Gan ddefnyddio camau sydd wedi'u profi i'ch helpu i gyflwyno, bydd Susan yn rhannu ffyrdd hawdd i baratoi; ystyried y pwrpas; gwahanol ffyrdd i strwythuro eich cynnwys i greu dylanwad; datblygu eich presenoldeb hefo iaith gorfforol a'r llais.

Byddwch yn gadael y sesiwn hefo syniadau newydd ar gyflwyno a bod yn fwy hyderus.



Cyflwynir gan:

Susan Heaton-Wright

Arbenigwr byd-eang mewn effaith, presenoldeb, siarad a dylanwad

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

Lleihau ymddygiad heriol yn y dosbarth: Sut y gall ffocysu ar sgiliau ieithyddol fod yn ateb

Bydd Sue White yn trafod sut y gall gwella geirfa a sgiliau cyfathrebu gael effaith ar wella ymddygiad heriol mewn dosbarth. Bydd Sue yn rhannu strategaethau ymarferol fydd yn helpu myfyrwyr i gyfathrebu a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysgu mewn ffordd positif.



Cyflwynir gan:

Sue White

Pennaeth Addysg

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

Personoli dysgu ar gyfer pob disgybl

Datglowch y potensial ym mhob disgybl drwy brofiadau positif ac ysbrydoledig. Bydd y sesiwn yn ffocysu ar ddysgu wedi'i bersonoli drwy ddefnyddio gweithrediadau ac adnoddau sy'n barod ar eich dyfeisiadau cyfrifiadurol yn yr ysgol. P'r un ai yr ydych chi'n defnyddio platfformau Apple, Google neu Microsoft, byddwn yn edrych ar gyfoeth o adnoddau am ddim, gan wneud yn siwr nad yw cyllideb yn cyfyngu ar ddatblygiadau addysgol arloesol. Bydd addysgwyr yn dysgu sgiliau sy'n harneisio technoleg, gan feithrin agwedd fydd wedi ei phersonoli ar gyfer eich dosbarth sy'n gwella ymrwymiad a llwyddiant y disgybl. Darganfyddwch sut y gall adnoddau am ddim wella'r profiad addysgol i bob disgybl beth bynnag fo'r adnoddau.



Cyflwynir gan:

Ryan Evans

Uwch Arbenigwr Dysgu Digidol (Arweinydd Addysg)

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

'VOCAL ENERGISER' - Iechyd Llais a Lles

- Deffro ein lleisiau ar gyfer y dydd o'n blaenau
- Rhyddhau endorffins positif- helpu i'n gwneud yn fwy hyderus- helpu i ni deimlo'n dda!
- Ymwybyddiaeth ac addysg ynglŷn â Iechyd y Llais
- Iechyd cyffredinol, meddylgarwch a lles
- Beth allwn ei wneud os yw'n lleisiau/gwddw'n teimlo'n gryg, yn brifo neu'n anghyfforddus?
- Y Llais ei hun- mecanwaith/anatomy
- Sut yr ydym yn meddwl am ein llais- ein llais bob dydd a'n llais gwaith, ein offeryn, ein hunaniaeth, hyder, ymarweddiad
- Sgiliau all gael eu trosglwyddo ar gyfer y dosbarth a'n disgyblion.



Cyflwynir gan:

Polly Beck

Soprano / Athrawes Canu / Athrawes Llefaru a Drama / Hyfforddwraig Perfformio

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

e-sgol yn y Cynradd

Cyflwyniad rhyngweithiol yn edrych ar brosiectau buddiol i ysgolion cynradd sy'n manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf i ddod â phrofiadau gwerthfawr i ddysgwyr ledled Cymru.

Bydd cyfle i flasau arlwy eang gan gynnwys gwasanaethau rhyngweithiol sy'n edrych ar fanteision yr iaith Gymraeg gyda thasgau llythrennedd wedi'u gwahaniaethu i 11 lefel, e-steddfodau byrlymus yn dod ag un o draddodiadau diwylliannol pwysicaf Cymru yn fwy i'r dosbarth, gweithdai e-hangu gorwllion ar y cyd â phrifysgolion Cymru i gynnig profiadau heriol i ddysgwyr dawnus yn ogystal â sesiynau bywiog sy'n cynnig profiad o ieithoedd y byd i'ch ysgolion - rhywbeth at ddant pawb!




Cyflwynir gan:

Huw Davies

Arweinydd Cynradd e-sgol

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan  Agored Cymru

Darllen am Seminarau



Ffurflen Archebu Grŵp



10:30 - 11:20

Dreigiau – Anturiaeth mewn ysgrifennu creadigol

Am dros 40 mlynedd mae Pie Corbett wedi bod yn denu a dofi dreigiau i danio dychymyg yr ifanc.

Yn y gweithdy deinamig hwn byddwch yn cael mynediad i fyd hudolus creaduriaid mytholegol ac yn edrych ar farddoniaeth byr [‘short-burst poetry’] adroddiadau newyddion ac ysgrifennu gwybodaeth.

O greu storïau wedi eu hysbrydoli gan ddreigiau i greu anturiaethau am gymeriadau byddwch yn darganfod hwyl, a strategaethau y gallwch eu haddasu i ddennu ysgrifenywyr ifanc.

Cydwch yn eich wyau draig, deffrowch yr anturiaethwr ynoch chi, a gadewch i'r hud fynd â chi.



Cyflwynir gan:

Pie Corbett

Awdur, Llyfrwr, Athro a Bardd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Gweithio'n glyfrach ddim yn galetach

Defnyddio Deallusrwydd Artificial [AI] i gefnogi dysgu ac addysgu'n y dosbarth. Bydd yn sesiwn yn cynnwys Mr P yn rhannu a dangos ffyrdd effeithiol y gall Deallusrwydd Artificial helpu a chefnogi athrawon yn y dosbarth.



Cyflwynir gan:

Mr P (Lee Parkinson)

Athro Ysgol Cynradd ac Ymgynghorydd Addysg

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Gweithio ar ein iechyd meddwl a'n lles ein hunain yn gyntaf- fel bo gennym ni egni i helpu eraill!

Mae'n hawdd anwybyddu ein lles ein hunain, ond mae angen i oedolion fodelu lles yn dda a'i roi'n uchel ar agenda ysgol.

Rydym angen cyd-bwysedd yn ein bywydau, a gweithio ar Gynlluniau Gofal Personol [‘Personal Care Plans’], meddwigarwch a hwyl i ail danio lefelau egni a hapusrwydd, ac i sicrhau egni i gefnogi eraill.

Mae'n bwysig ein bod yn estyn allan a rhannu ein profiadau mewn fforymau oedolion cefnogol sydd ddim yn feirniadol, i greu perthynas gryf, gofalgar, gynhwysol mewn amgylcheddau dysgu ar gyfer pawb.



Cyflwynir gan:

Jenny Mosley

Cyfarwyddwr a Sylfaenydd Quality Circle Time ac Awdures

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Adnoddau synhwyrdd. Ydych chi'n cael eich camarwain?

Rhowch gyflenwad o ‘fiddle toys’ ar y ddesg ac ydych chi'n darparu cefnogaeth synhwyrdd? Gwaharddwch ‘fidget spinners’ ac ydych chi'n cefnogi canolbwyntio? Beth ydy'r dull gorau? Bydd y seminar yn dad-wneud y syniad fod pob dull yn addas ar gyfer pawb, ac yn edrych ar sut i ddefnyddio adnoddau synhwyrdd i ddarparu'r gefnogaeth orau ar gyfer y rhai hynny a fyddai'n elwa o gefnogaeth o'r fath.



Cyflwynir gan:

Dr Jo Grace

Arbenigwr Ymgysylltu Synhwyrdd ac Cynhwysiant

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **ADY a Pawb**

SEMINAR ADY

10:30 - 11:20

Y llwybr i ysgolion hapus sy'n perfformio'n dda

Mae perfformio'n dda a hapusrwydd i weld yn ddau beth ar wahân, ond gall hyn fod yn gamarweiniol- i gael un- mae'n rhaid cael y llall.

Ond sut? Pan mae'n teimlo fod yn rhaid i ni hepgor hapusrwydd i berfformio'n dda fel ysgolion a fel arall rownd.

Hefo dros ddegawd o ymchwil i ysgolion hapus sydd hefyd yn perfformio'n dda, bydd Sonia'n rhannu sut mae rhai ysgolion yn cael canlyniadau gwych holiataidd, yn gallu cael timau hapus [sydd yn aml yn gweithio llai o oriau na'r rhelyw o ysgolion] a chynnig argymhellion ymarferol i'ch helpu chi i wneud yr un fath.



Cyflwynir gan:

Sonia Gill

Cyfarwyddwr - Heads Up

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Dod o hyd i'r swigen - Pedagogaeth, ymarfer, llesiant emosiynol, gobaith a hapusrwydd

Mewn byd lle mae polisiau ac arferion addysgol yn newid yn barhaus, byd unigryw y plentyn sy'n tyfu, yn dysgu ac yn profi'r byd drwy wahanol brofiadau dysgu yw'r hyn sy'n bwysig. Nid yw data, profion ac arholiadau yn creu dysgwyr gwych. Mae ‘Of Teaching, Learning & Sherbet Lemons’ yn cynrychioli'r hyn sydd wrth wraidd addysg, ysgolion, dysgu ac addysgu. Mae angen yr allanol cadarn – y trylwyredd, y rheolau, y systemau a'r strwythurau – i wneud i bopeth weithio. Ond mae torri drwy'r cragen galed yn gwneud y daith i chwilio am y canol swigod hwnnw'n llawer mwy boddhaol, ac yn union yma, yng nghanol dysgu ac addysgu, mae'r pethau mwyaf hudolus yn digwydd – lle mae'r swigen go iawn yn digwydd. DEWCH Â DYFAIS DIGIDOL GYDA CHI e.e ffon symudol.



Cyflwynir gan:

Nina Jackson

Ymgynghorydd Addysg ac Awdur

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**



10:30 - 11:20

Hyfforddiant cyfundrefnol wrth galon lles a iechyd

Bydd datblygu'r diwylliant o hyfforddi yn cael yr effaith mwyaf positif ar bobl s'yn gweithio mewn ysgolion, ac yn y pen draw ar blant a'u teuluoedd. Mae hyfforddi arweinyddion a datblygu hyfforddi mewn ysgolion yn ffordd bwerus i arfogi pobl hefo'r awtonomiaeth angenrheidiol i siapio yr amgylchedd addysgol lle maent yn gweithio.

Yn y gweithdy rhyngweithiol hwn bydd Julie yn eich tywys i'r gelfyddyd o hyfforddi.



Cyflwynir gan:

Julie Rees

Ymgynghorydd RLE, Hyfforddwr Cydweithredol CCPC ac Ymgynghorydd Achrededig C-me

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

'Learn to de-escalate with the Maria Von Trapp method'

Bydd Meic yn eich tywys drwy'r broses o pam y mae rhai plant yn defnyddio rhai mathau o ymddygiad, a sut, drwy drawsffurfio i Maria Von Trapp y gallwch wella a thrin yr ymddygiad drwy' Doh ray Me.'



Cyflwynir gan:

Meic Griffiths / Neal Collard

Prifathro Gweithredol / Cyfarwyddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

SEMINAR
ADY

Y prif strategaethau addysgol i gefnogi plant a phobl ifanc hefo ADHD

1) Beth ydy ac nac ydy ADHD, yn cynnwys yr ymchwil diweddaraf, nodweddion allweddol, meini prawf diagnostig, comorbidities, anhwylderau swyddogaeth weithredol (executive functioning impairments) anhwylderau emosiynol (emotional dysregulation), a'r amrywiol ffyrdd y mae ADHD yn amlygu ei hun.

2) Strategaethau ar gyfer yr ystafell ddosbarth - yn cynnwys cefnogaeth sgiliau swyddogaeth weithredol, 'masking', cof, ymrwymiad a chefnogaeth ar gyfer hunan-reolaeth.



Cyflwynir gan:

Colin Foley

Sefydliad ADHD Elusen Niwroamrywiaeth. Cyfarwyddwr Hyfforddiant Cenedlaethol

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

10:30 - 11:20

'To Pride or not to Pride'

Yn y blynyddoedd diwethaf mae cynnal digwyddiad 'pride' wedi dod yn achlysur newydd mewn ysgolion. Ydy'r rhain yn ychwanegiadau defnyddiol ar gyfer ysgolion neu gimic? Yn y sesiwn byddwn yn edrych ar resymau dros gael neu'n erbyn cynnal digwyddiad pride mewn ysgol, p'run ai y dylid cael clwb Pride, a ffyrdd gwahanol o ymgysylltu hefo ein cymuned ynglŷn â materion a hunaniaeth LHDTC+.



Cyflwynir gan:

Ian Timbrell

Hyfforddwr ac ymgynghorydd LHDTQ+ ac amrywiaeth

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Pethau nad oeddwn yn ei wybod am fy nyfais gyfrifiadurol!

Darganfyddwch y potensial nad oeddech yn ymwybodol ohono sydd eisioes ar eich dyfeisiadau ac ar flaen eich bysedd!

Bydd y sesiwn ymarferol yn cyflwyno athrawon i nodweddion nad oeddech efallai'n gwybod amdanynt ar eich iPad, cliniadur a Chromebooks ac a fydd yn cyfoethogi y dysgu'n y dosbarth heb yr angen am adnoddau ychwanegol na thechnoleg. Byddwn yn defnyddio adnoddau parod a 'settings' fydd yn gwneud dysgu'n haws, cefnogi anghenion dysgu amrywiol, a dal sylw y myfyrwyr mewn ffyrdd newydd. Byddwch yn gadael y sesiwn hefo hyder newydd ysbrydoledig i gyfoethogi eich gwersi, symleiddio eich llif gwaith, a chreu profiadau rhyngweithiol a chofiadwy drwy ddefnyddio'r dyfeisiadau sydd eisioes yn eich dosbarthiadau.



Cyflwynir gan:

Nick Evans

Pennaeth Dysgu Digidol

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

Hud a hunan hyder

Cyfle i chi gael eich rhyfeddu efo triciau hud a lledrith a phrofi eu gwerth wrth hybu hunan hyder a datblygu strategaethau i ymdopi ag emosiynau anodd.

Fel ymarferydd celf mewn iechyd, mae lles ac iechyd meddwl plant yn hollbwysig i mi. Trwy gyfuno hyn â dros 40 mlynedd o berfformio fel consuriwr, rwy'n cyflwyno sesiynau hud sydd yn hybu hunanhyder plant, yn ddeinamig, difyr, sensitif ac yn llawn hwyl mewn amgylchedd diogel. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn sylweddoli y gallant wneud gwahaniaeth, bod eu llais nhw yn bwysig.

Er nad yw wastad yn bosib gwneud popeth yn iawn, mi fedrwn ni wneud pethau yn well. Hud sy'n rhoi gwên yn eich calon. Sesiwn dwyieithog sy'n addas i bawb.



Cyflwynir gan:

Karen Wynne

Consurwraig ac Ymarferydd Celf Mewn Iechyd

Iaith: **Cymraeg a Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**



12:00 - 12:50

Llafarwch - Pedagogiaeth gobaith a gweithredu

Bydd Hywel yn archwilio'r canlynol:

- Adrodd straeon a dysgu: yr ymchwil i sut mae straeon yn ymgysylltu ac yn cymhell dysgwyr
- Manteisio ar ymarfer enbywiol drwy bedagogiaeth Drama i gynorthwyo dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm
- Annog llafarwch rhagorol ar draws sbectrwm y cwricwlwm
- Symud o ymgysylltu i fuddsoddi mewn dysgu
- Sut i adeiladu tuag at ymarfer trawsffurfiol
- A byddwn ni hefyd yn cael chwerthin!!



Cyflwynir gan:

Hywel Roberts

Ymgynghorydd Addysg ac Awdur

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

Y plentyn 'ffrwydro!' Rheolaeth dicter ar gyfer ysgolion a cholegau

Mae'r sesiwn wedi'i chynllunio i roi cipolwg ar nodweddion a seicoleg dicter ac edrych a deall beth sy'n sbarduno dicter. Yn ogystal, fe gewch adnoddau, technegau a strategaethau ymarferol i reoli a delio'n saff hefo rhai disgyblion/myfyrwyr a sefyllfaoedd.



Cyflwynir gan:

Nicola S. Morgan

Ymgynghorydd Addysg, Awdur a Siaradwr TEDx

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

SEMINAR ADY

'Autism Plus Environment = Outcome'

Archwilio beth mae'n ei olygu i fod yn Awtistig, a pha mor bwysig yw'r dyfyniad 'Autism plus environment = Outcome'.

Engbreiffiau bywyd go iawn gen i a fy 'Neurokin'.

Gan ddefnyddio'r uchod i gael cipolwg ar unigolion o bob oed rydych chi'n gweithio ac yn byw gyda nhw, i greu'r amgylchedd cywir.



Cyflwynir gan:

Tigger Pritchard

Eiriolwr, Ymgynghorydd, a Hyfforddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

Creu'r 'Ni': Pwysigrwydd Perthyn Mewn Ysgol

Mae'r rheidrwydd i berthyn yn rhan annatod o'r natur ddynol, ac yn cael ei adnabod fwy-fwy fel ffactor bwysig sy'n dylanwadu ar bresenoldeb mewn ysgol, ymddygiad a chyrhaeddiad. Yn y seminar bydd Jean yn edrych ar ymchwil ar berthyn a darparu strategaethau ymarferol i wella'r syniad o berthyn ar gyfer yr holl ddisgyblion- yn enwedig y rhai dan anfantais neu'n fregus. Bydd yn disgrifio:

- Ffyrdd o adeiladu dosbarthiadau cydlynus a grŵpiau tiwtor
- Sut i wella rhyngweithio rhwng cyfoedion a chefnogir naill a'r llall
- Sut i sicrhau fod yr holl blant yn cael y teimlad eu bod yn cyfri' ac yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion
- Sut i adeiladu perthynas gref rhwng staff a disgyblion



Cyflwynir gan:

Jean Gross

Awdur a Siaradwr Poblogaidd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Cynradd ac Uwchradd**

12:00 - 12:50

Adeiladu eich tîm lles meddyliol

Pwyntiau Allweddol

- Yr angen am hunan les rhagweithiol i gynnal lles meddyliol
- Deall rôl bendant hyfforddi a rhwydweithiau proffesiynol i gefnogi twf personol
- Adnabod sut y gall grŵpiau 'mastermind' ddarparu'r strwythur a'r atebolrwydd sydd ei angen ar gyfer llwyddiant.

Bydd y cyfranogion yn dysgu am strategaethau ymarferol hunan- les a sut i feithrin rhwydwaith sydd yn cynnig cefnogaeth ac atebolrwydd fydd yn gwella eu lles meddyliol [mental wealth] ac yn eu gwneud yn fwy effeithiol.



Cyflwynir gan:

Mike Pagan

Rheolwr gyfarwyddwr - Breaking Frontiers Ltd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

Mynd at gymorth SIY yn strategol: O gyrraedd i asesu a chyflawniad

Bydd Beth yn archwilio beth mae'n ei olygu i fod yn SIY, faint o amser y gall y broses o ddysgu Saesneg ei gymryd a sut orau i asesu a monitro cynnydd eich carfan SIY. Sut olwg sydd ar broses newydd-ddyfodiaid effeithiol? Pryd dylen ni asesu dysgwyr? Sut mae cymorth yn amrywio yn ôl lefel hyfedredd? Beth yw rhwystrau cyffredin i ddysgu y dylem gynllunio ar eu cyfer? Bydd Beth yn mynd â chi ar daith chwiban o bopeth SIY ac yn edrych ar sut mae ymagwedd strategol, ysgol gyfan yn allweddol i lwyddiant i bawb.




Cyflwynir gan:

Beth Southern

Ymgynghorydd Addysgol ac Arweinydd Arbenigol Addysg (SLE) ar gyfer SIY

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan  Agored Cymru

Darllen am Seminarau



Ffurflen Archebu Grŵp



12:00 - 12:50

SEMINAR ADY

Bydd cerddoriaeth yn siarad pan fo geiriau'n methu

Mae therapi cerddoriaeth yn adnodd sydd yn gallu cefnogi plant sydd hefo anhwylderau iechyd meddwl drwy fynegi eu hemosiynau drwy gerddoriaeth neu weithgareddau creadigol eraill lle mae mynegiant geiriol ar goll neu'n anodd.

Drwy therapi cerddoriaeth gall plant ddechrau rhoi trefn ar eu meddyliau, teimladau ac emosiynau i greu cyswllt, lleddfu gorbryder a gwella perthynas.



Cyflwynir gan:

Joy Dando
Therapydd Cerdd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

12:00 - 12:50

Argymhellion ar gyfer gwneud gwahaniaeth mewn dosbarth: Hefo'ch llais, corff, ac iechyd y llais

Mae iechyd y llais a cholli'ch llais yn bwysig i'r gwaith- ond ddylai hyn ddim bod yn broblem. Mae edrych ar ôl y llais; bod yn ymwybodol o'ch corff yn y dosbarth a pheidio gor-neud hi oll yn ffyrdd positif o gadw'r llais a gwarchod eich lefelau egni. Yn y sesiwn ymarferol hon byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio eich llais.

'Traffic light voices' i reoli'ch defnydd o'r llais, argymhellion ar charisma ac iaith gorfforol; cynllunio gwersi i warchod eich egni ac argymhellion i edrych ar ôl eich llais.



Cyflwynir gan:

Susan Heaton-Wright
Arbenigwr Byd-eang mewn Effaith, Presenoldeb, Siarad a Dylanwad

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

SEMINAR ADY

Adnabod ADY a'i effaith ar gynnydd, adnoddau a llesiant

Bydd y sesiwn hon yn amlygu pwysigrwydd adnabod ac ymarfer ADY a'i effaith ar adnoddau, cynnydd a lles cymuned yr ysgol.

Mae ADY yn bwnc mawr gan fod y darlun o gynhwysiant wedi esblygu ac mae cymaint o arweinydd ysgol yn mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch adnoddau, cynnydd disgyblion a lles staff.

Yn y seminar hwn byddaf yn tynnu sylw at bwysigrwydd adnabod yn arwain at gymorth cywir ac wedi'i dargedu i gefnogi'r ffactorau uchod.

Byddaf yn trafod yr elfennau o ADY sy'n cael eu hesgeuluso fwyaf a sut maen nhw'n cyfrannu fwyaf at gynnydd a datblygiad disgyblion.



Cyflwynir gan:

Emma Noel Pinnock
Prif Weithredwr y Grŵp Addysg Hanfodol


Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

12:00 - 12:50

Defnyddio'r awyr agored i wneud y cyswllt gorau hefo natur

Cyswllt cryf hefo natur ydy'r danghosiad gorau ar gyfer ymddygiad pro-amgylcheddol, heb anghofio'r cyfoeth o fanteision eraill. Wrth gwrs mae'r hygyrchedd i ardaloedd tu allan yn wahanol ar draws y wlad, a dydy'r holl amser sy'n cael ei dreulio tu allan ddim yn cael ei rannu'n gyfartal bob amser wrth greu cyswllt hefo natur.

Yn y seminar byddwn yn edrych ar sut y bydd yr holl amser sy'n cael ei dreulio tu allan i'r ystafell ddosbarth yn gallu cael ei ddefnyddio i greu cyswllt cryf â natur o fynd ar dripiâu preswyl i ysgolion coedwig i'n defnydd bob dydd o'r cwricwlwm. Yn ogystal byddwn yn gweld sut y mae ein cyswllt â'n hamgylchedd yn gallu cael ei symbylu yn yr ardaloedd awyr agored mwyaf cyffredin.



Cyflwynir gan:

Rebecca Edwards / Mark Tiernan
Cydlynnydd Dysgu Amgylcheddol/Rheolwr Gweithrediadau'r Ganolfan

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

60 Eiliad i ffwrdd

Yn "60 Eiliad i Ffwrdd," mae Maria yn archwilio effeithiau dwys gall eiliadau fod ar berson. Yn y sgwrs bydd yn plymio i'r eiliadau hanfodol a all newid canlyniadau mewn eiliadau, drwy siwrna wirioneddol a mewnwelediadau.

Ymunwch â ni wrth i ni ddatgelu byd dwys a sut gall penderfyniadau mewn eiliad achosi goblygiadau sylweddol yn ein bywydau bob dydd ac yn y gymdeithas.



Cyflwynir gan:

Maria Guimaraes
Hyfforddwr NLP, Meistr P. Therapi Llinell Amser a Siaradwr TEDx

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

Deall ymagwedd ysgol gyfan yr adran addysg at iechyd meddwl a lles

Yn haf 2022, tanlinellodd astudiaeth gan yr Adran Addysg yr angen dybryd am gymorth ymarferol ac effeithiol i fynd i'r afael ag iechyd meddwl a lles mewn ysgolion. Ymatebodd yr Adran Addysg gyda'r 8 egwyddor ar gyfer ymagwedd ysgol gyfan—fframwaith clir y gellir ei weithredu i ysgogi newid ystyrion, parhaol. Mae pob ysgol, waeth beth yw ei maint neu gymhlethdod, ar daith i wella deilliannau. P'un a ydych chi'n cymryd y camau cyntaf neu os oes gennych chi les greiddiol i'ch ymarfer, mae deall blaenoriaethau eich lleoliad yn allweddol i symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth tymor byr.

Mae'r seminar hon yn cynnig mewnwelediad i ateb deinamig, hirdymor wedi'i deilwra i anghenion unigryw eich ysgol.



Cyflwynir gan:

Cath Beagley
Yr Hyb Iechyd Meddwl - Sylfaenydd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**



13:30 - 14:20

Sut i ddod â llawenydd i'ch ystafell ddosbarth heb gollu i'ch meddwl

Gan dynnu ar ymchwil gyfredol, bydd Hywel yn rhannu dulliau a fydd yn eich galluogi i ragori yn eich rôl. Bydd yn cwmpasu:

- Sut y gall llawenydd ddod yn rhan ganolog o'ch diwrnod
- Yr hyn y mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym
- Defnyddio penderfyniadau pedagogiaidd craff
- Modelau Trafferth Pwerus fel hwb i ymarfer creadigol a gosod dysgu mewn cyd-destunau sy'n dod â'r haniaethol yn fyw
- Adeiladu'r bont rhwng cwricwlwm cyhoeddedig a byw
- Sut mae persona a safiad ein hathrawon yn effeithio ar ddysgu a chynnydd
- Byddwn hefyd yn cael HWYL!!!



Cyflwynir gan:

Hywel Roberts

Ymgynghorydd Addysg ac Awdur

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

Byddwch wydn! Ffyrdd ymarferol o ddelio a datblygu disgyblion gwydn

Mae datblygu gwytnwch bellach yn cael ei gydnabod yr un mor bwysig â dysgu academaidd a lles.

Yn ôl ymchwil mae plant a phobl ifanc gwydn yn sicrhau presenoldeb uwch, ymddygiad positif, a deilliannau academaidd gwell.

Mae'r sesiwn wedi'i chynllunio er mwyn gwella dealltwriaeth y cyfranogion yn ogystal ag edrych ar adnoddau ymarferol a strategaethau wedi'u seilio ar ymchwil i gefnogi ac adeiladu gwytnwch.



Cyflwynir gan:

Nicola S. Morgan

Ymgynghorydd Addysg, Awdur a Siaradwr TEDx

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

10 Rhwystr cyffredin mewn arweinyddiaeth ysgolion - a sut i'w goresgyn

Os gerddwch chi i mewn i ddigon o ysgolion fel ddowch i adnabod patrymau. Mae Sonia Gill wedi bod yn ymweld ag ysgolion ar hyd a lled y wlad ers 2011, yn gweld yr un problemau'n codi dro ar ôl tro. Nid camgymeriadau cyffredinol arweinyddiaeth ydy'r rhain - maent yn sialensau penodol sy'n wynebu arweinyddion ysgol. Y newyddion da?

Gall pob un o'r problemau yma gael eu datrys, yn aml yn haws na mae rhywun yn ei feddwl. Ymunwch â ni i ddatgelu beth ydy'r rhwystrau cyffredin yma a darganfyddwch gamau ymarferol i'w goresgyn.



Cyflwynir gan:

Sonia Gill

Cyfarwyddwr - Heads Up

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

'Taskmaster education': Llawenydd mewn dysgu

Bydd Dr Ali Struthers a James Blake-Lobb yn rhannu sut mae'r 'Taskmaster Education Club' yn mireinio sgiliau allweddol, fel gwaith tîm, meddwl ochrol, gwytnwch, bod yn greadigol, a rhesymu.

